Eisteddfod Llandyrnog 2023

Yn anffodus, oherwydd y tywydd erchyll ddaeth yn sgîl Storm Babet, bu'n rhaid gwneud penderfyniad anodd iawn a chanslo eisteddfod Llandyrnog eleni. Roedd pawb yn siomedig iawn oherwydd roedd hi'yn argoeli i fod yn eisteddfod dda iawn gyda nifer dda yn bwriadu dod i gystadlu. Yn ffodus, roedd y gwaith Celf a Llenyddiaeth wedi ei feirniadu. Diolch i Haf Evans, Henllan am feirniadu'r Llenyddiaeth – cafodd dros 180 o ddarnau i'w darllen! Ac i Nia Davies, Cefnmeiriadog, am feirniadu'r gwaith celf – dros 300 o gampweithiau wedi dod i law!
Enillydd y gadair oedd Beca Evans o Landyrnog, ac yr oeddem fel pwyllgor yn teimlo y byddai'n braf cael ei hanrhydeddu. Felly, ar ddechrau cyfarfod o Gymdeithas Capel y Dyffryn nos Lun, Hydref 30, cawsom seremoni i gyflwyno cadair fechan iddi. Canodd Lona Meleri Gân y Cadeirio a phawb yn ymuno yn y cwpled olaf. Diolch yn fawr i Mary Mars Lloyd am wneud y clogyn hardd. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod 2024!

Canlyniadau Llenyddiaeth

Bl 2 ac iau - Teulu Ni: Cydradd 1af Robin Lovegrave; Noah Foulkes (Ysgol Bro Cinmeirch)
Bl 3 a 4 - Parti: 1af Greta Williams, Ysgol Pen Barras
Bl 5 a 6 - Mynd ar Drip: 1af Steffan Rhys Davies, Ysgol Bro Cinmeirch
Bl 7 - 9 Hunanddewisiad: 1af Mari Edwards, Ysgol Maes Garmon
Bl 10 - 13 Hunanddewisiad: 1af Eos Jones, Ysgol Brynhyfryd
Llenyddiaeth dysgwyr Bl 10 – 13: 1af Jocelyn Lloyd Jones, Ysgol Brynhyfryd
Cystadleuaeth y Gadair: 1af Beca Evans, Llandyrnog.

Canlyniadau Celf

Arlunio Bl. Derbyn ac iau - Enfys: 1af Elen, Ysgol Twm o'r Nant
Arlunio Bl.1 a 2 - Yr Hydref: 1af Phoebe Melia, Ysgol Twm
Arlunio Bl.3 a 4 - Noson Tân Gwyllt: 1af Amelia Orr, Ysgol Bryn Clwyd
Arlunio Bl.5 a 6 - Yn y Jyngl: 1af Ifan Wood, Ysgol Twm o'r Nant
Arlunio Bl.7 - 13 - Hunanddewisiad: 1af Anna Griffith, Ysgol Brynhyfryd

Graffeg Cyfrifiadurol Bl.2 ac iau - Poster: 1af Noah F., Ysgol Bro Cinmeirch
Graffeg Cyfrifiadurol Bl.3 a 4 - Poster: 1af Martha Foulkes, Ysgol Bro Cinmeirch
Graffeg Cyfrifiadurol Bl.5 a 6 - Poster: 1af Lucy Watkin Jones, Ysgol Bro Cinmeirch
Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7 – 13 - Poster: 1af Beth Evans, Ysgol Brynhyfryd